



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 24 Hydref 2018 am 5.00 pm ym
The Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd S Pickering
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd S.Evans
Y Cyngorydd M Forey	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd P Howe	Councillor K Morgan
Y Cyngorydd R Yeo	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd M Adams
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd R Smith
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd Owen-Jones
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd S Belzak	Y Cyngorydd D Macey
Y Cyngorydd E Stephens	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd G Jones	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd G Hughes	Councillor K Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd L Jones
Y Cyngorydd L Hooper	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd G Williams
Y Cyngorydd A Davies-Jones	Councillor J Davies
Y Cyngorydd J Cullwick	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd A Chapman	Y Cyngorydd G Caple

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol

60 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G Holmes, S Rees, S Rees-Owen, E Webster, M Weaver, D Grehan ac R Turner.

61 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant canlynol ei wneud ynglŷn â'r eitem ganlynol:

- Eitem 5(b) ar yr Agenda – Cwestiynau Aelodau – Datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Belzak y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda - "Rydw i'n aelod o Gorff Llywodraethu YGG Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Cilfynydd ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o God Ymddygiad yr Aelodau. "

62 CYHOEDDIADAU

1. Llongyfarchodd y Maer y Cynghorydd Tegg am godi £16,400 ar gyfer ei phedair Elusen (Friends of Animals, Guide Dogs Cymru, Alzheimer's Society Cymru and Y Bwthyn) yn ystod ei chyfnod fel Maer yn ystod 2017/18.
2. Cyhoeddodd y Maer fod y Cynghorydd Webber yn gwerthu calendrau maint A4 ar hyn o bryd i helpu i godi arian i'r elusen "Friends of the Animals Wales".
3. Dywedodd y Cynghorwr Bwrdeistref Sirol J Harries wrth yr Aelodau mai heddiw oedd Diwrnod Rhyngwladol Polio a soniodd am waith y Rotari Rhyngwladol ynghyd â phartneriaid eraill sydd wedi bod yn gweithio i gael gwared ar y clefyd ofnadwy. Parhaodd y Cynghorydd trwy ddweud bod dim modd gwella o glefyd polio, ond roedd meddyginiaeth ataliol ar gael y mae modd iddo imiwneiddio plant am oes. Dywedodd fod The Bill and Melinda Gates Foundation bellach yn treblu cyfraniadau'r Rotari. Ychwanegodd fod pob £1 y mae'r Rotari yn ei chyfrannu, mae modd i 5 plentyn gael eu himiwneiddio yn erbyn Polio. Daeth y Cynghorydd i gsgliad trwy roi gwybod i'r Aelodau bod bathodynau pinnau crocws ar gael i'r Aelodau eu prynu i gefnogi'r gwaith cadarnhaol yn y maes yma
4. Llongyfarchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Chapman Mr Alex Pugsley (athro yn Ysgol Gynradd Treorci) ar gael ei ddewis yn Hyrwyddwr 'Get Set' gan Raglen 'Get Set' sy'n arwain at Gemau

Olympaidd 2020. Dywedodd y Cynghorydd fod hyn yn gwneud Ysgol Gynradd Treorci yn 'Get Set Beacon' - un o ddim ond 45 yn y DU ac un o ddim ond dau yng Nghymru. Parhaodd trwy esbonio mai nod yr Ysgolion oedd denu rhagor o bobl i wneud rhagor o ymarfer corff yn fwy aml trwy gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a chymunedau ehangach gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau corfforol, er budd eu hiechyd, eu lles a'u ffordd o fyw. Cafodd ei nodi y byddai Mr Pugsley a Mrs L Reynolds (Pennaeth Ysgol Gynradd Treorci) yn cael eu gwahodd i'r Parlwr i gydnabod ei lwyddiant yn swyddogol.

5. Cymerodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Bradwick y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ddwy eitem:
 - Fel Dirprwy Gadeirydd Gwasanaeth Achub Tân De Cymru (SWFRS), mynychodd y Cynghorydd Bradwick Bencampwriaeth UKRO ym Mae Caerdydd lle cymerodd dros 600 o Ddiffoddwyr Tân ran, gyda chyfanswm o dros 70 o dîmau o bob cwr o'r DU. Roedd y Cynghorydd Bradwick yn falch o gyhoeddi bod SWFRS wedi ennill y bencampwriaeth fel y tîm rhyddhau cyffredinol gorau a'r tîm gorau yn y gystadleuaeth. Roedd y tîm wedi'i arwain gan Andrew Morgan sy'n bennaeth ar yr orsaf yn Aberdâr. Cafodd yr aelodau wybod hefyd am nifer o wobrau eraill yr oedd SWFRS wedi'u hennill ac roedd hefyd yn cydnabod gwaith Brigâd Dân Llundain yn dilyn digwyddiadau Grenfell dros 12 mis yn ôl.
 - Llongyfarchodd y Cynghorydd Bradwick Mr Thomas Matthews o Gwm Cynon, a oedd yn falch yn cynrychioli Tîm Prydain Fawr ym mhencampwriaeth y byd yn Slofenia. Cafodd yr aelodau wybod fod Mr Matthews wedi ennill gwobr efydd yn y gystadleuaeth Tennis Bwrdd Cadeiriau Olwyn ac roedd yn gobeithio bod yn gymwys ar gyfer tîm Prydain yn y Gemau Paralympaidd yn Tokyo yn 2020. Cafodd ei nodi y byddai Mr Matthews yn cael ei wahodd i'r Parlwr i gydnabod ei lwyddiant yn swyddogol.
6. Gwnaeth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Brencher sylw ar ymgyrch '[Know your Lemons](#)', ymgyrch cancr y fron a gafodd ei chychwyn a'i datblygu gan gyn-athrawes ifanc yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, Dawn Wilson. Dywedodd y Cynghorydd Brencher fod yr ymgyrch a oedd yn gweithio gyda Tenovus yn helpu i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn effro i gancr y fron a gofynnodd yr Aelod i bawb gymryd rhan yn yr ymgyrch yma. Rhoddodd y Cynghorydd Brencher wybod hefyd am y sefydliad PONT yn Rhondda Cynon Taf a oedd yn cefnogi pobl sy wedi'u heffeithio gan dirlithriad yn Uganda ar hyn o bryd. Dywedodd y Cynghorydd Brencher am y gwaith sy wedi'i wneud hyd yn hyn gan yr elusen gyda'r ymdrechion i helpu plant ysgol i ffoi o adeilad ysgol. Dywedodd yr Aelod fod yna dudalen 'Just Giving' a dywedodd y Maer y byddai manylion am y dudalen [Just Giving](#) yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau.
7. Rhoddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L Jones ddeiseb i'r Maer

mewn perthynas â phrotest yn erbyn y bwriad i gau Safle Mwynderau Nant-y-gwyddon.

8. Rhoddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D Williams yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y gwaith cadarnhaol sy wedi'i wneud gan elusen CRY (Cardiac Risk in the Young) gyda thua 200 o bobl ifainc leol yn cael eu sgrinio gan yr elusen. Roedd hyn ond yn bosibl oherwydd y rhodd a oedd wedi'i gwneud gan y Cyngorydd Williams yn ystod ei gyfnod fel Maer yn 2012-13. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai'r arian a oedd wedi'i roi yn caniatáu sgrinio am ddau ddiwrnod ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a byddai Canolfan Sgrinio'r Galon yn cael ei sefydlu yn y Brifysgol.

63 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2018 yn rhai cywir.

64 DATGANIADAU

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Storm Callum:-

Nododd yr Arweinydd ei ddiolch i'r staff a weithiodd yn ddiymdroi yn ystod y tywydd gwael diweddar ar 12 a 13 Hydref, 2018. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Aelodau fod y ffigyrau cyfredol yn dangos bod 90 eiddo wedi'u difrodi gan y llifogydd. Cymeradwyodd waith yr holl staff a oedd yn gweithio o staff priffyrdd i staff draenio, staff cynllunio ar gyfer argyfyngau a a staff canolfanau galwadau, a oedd yn gweithio'n galed iawn i helpu i liniaru'r problemau.

Parhaodd yr Arweinydd trwy roi gwybod bod 7 modfedd o law wedi cwmpo mewn 48 awr yng Nghwm Cynon uchaf yn Hirwaun. Yng Nghwmaman cwmpodd 4 modfedd a chwmpodd 3 modfedd yng Nghilfynydd. Ychwanegodd fod hyn yn llawer iawn o law mewn cyfnod byr o amser. Parhaodd trwy nodi ei bod yn braf gweld bod yr holl gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd sydd ar waith ar draws yr Awdurdod yn gweithio, gan fod dim llifogydd yn yr ardaloedd hyn. Serch hynny, roedd llifogydd eithriadol yng Nghwm Rhondda uchaf a chanol Cwm Cynon. Parhaodd yr Arweinydd i nodi bod y Cyngor bellach yn gweithio gyda swyddogion a Dŵr Cymru i edrych ar atebion hirdymor i'r problemau a oedd wedi'u profi. Roedd cynllunio cyn y storm wedi digwydd gyda staff ychwanegol yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw a chyflwyno dwy fil a hanner o fagiau tywod, ond doedd hyn dal ddim yn ddigon. Daeth yr Arweinydd i ben trwy ailadrodd eto ei ddiolch i'r holl staff am eu gwaith dros y cyfnod 48-72 awr.

Datganiad gan y Cyngorydd G. Hopkins - Aelod o'r Cabinet ar

faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant ac ar faterion y Gymraeg

Dywedodd yr Aelod Cabinet wrth yr Aelodau fod y Gwasanaeth Cadw'n lach Gartref, gwasanaeth sy'n cael ei redeg rhwng y Cyngor a'r Awdurdod Iechyd i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty ac i atal blocio gwelyau, wedi ennill gwobr GIG Cymru a chafodd gymeradwyaeth uchel yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol.

65 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser)

"Wnaiff yr Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ynglŷn â chanlyniadau arholiadau yn RhCT eleni?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser

Dechreuodd yr Aelod o'r Cabinet ei hymateb trwy gydnabod, er nad yw tlodi ac amddifadedd yn esgusodion am dangyflawni, maen nhw'n dylanwadu ar ganlyniadau addysgol. Mae gan RCT y nifer 3^{ydd} uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ac yn seiliedig ar hyn, byddech chi'n disgwyl i RCT fod yn yr 20^{fed} safle o safbwynt dangosyddion cymharol, gan ychwanegu y dylid barnu perfformiad y Cyngor yn erbyn y gwerth ychwanegol sydd wedi'i ychwanegu ar ben yr hyn sydd i'w ddisgwyl.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet ei hymateb trwy ddarparu naratif manwl ar y canlyniadau arholiadau canlynol:

- **Y Cyfnod Sylfaen** - Mae data'n awgrymu bod Dangosyddion y Cyfnod Sylfaen wedi gostwng 5.65% yn RhCT yn ystod 2017/18 (1.35% yn is na chyfartaledd Cymru). Roedd dirywiad mewn cyflawniad hefyd yn amlwg ledled Cymru ar bob un o'r 5 mesur perfformiad. Mae'n debyg bod modd priodoli'r gostyngiad yma i newidiadau yn neilliannau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen
- **CA2** - Mae data'n awgrymu bod cyflawniad ysgolion cynradd yn ystod 2017/18 wedi gostwng o lai nag 1% ar draws y mwyafrif o feysydd pwnc, ond mae deilliannau Dangosyddion Pwnc Craidd wedi cyrraedd y lefel uchaf ond un er 2013. Cyflawnodd disgyblion RhCT ychydig yn well na chyfartaledd Cymru o safbwynt canran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg (iaith gyntaf).
- **CA3** - Gwnaeth ysgolion uwchradd gynnydd da yn ystod 17/18 o safbwynt 3 allan o 5 dangosydd cyflawniad allweddol, ac roedd un dangosydd arall yn parhau'n gymharol sefydlog. Roedd cyflawniad ar y rhan fwyaf o ddangosyddion Cyfnod Allweddol 3 ychydig yn is

na chyfartaledd Cymru, ac eithrio canlyniadau yn Saesneg, a oedd 0.2% yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

- **CA4** - Roedd newidiadau sylweddol i CA4 yn 2017 a'r modd y mae disgyblion unigol ac ysgolion yn cael eu hasesu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. O'r blaen, roedd y tair gwlad yn dilyn yr un trywydd ac roedd eu safonau addysgol wedi'u gosod gan un rheoleiddiwr. Bellach mae tri rheoleiddiwr ar wahân ar gyfer TGAU ar draws y 3 gwlad ac mae'r cymwysterau yn cael eu datblygu i fodloni gofynion pob rheoleiddiwr, ac yn cael eu dyfarnu'n annibynnol ar ei gilydd. Fydd y graddau sy'n cael eu dyfarnu o fewn pwnc ddim yn cael eu meincnodi ar draws pob gwlad bellach. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod deilliannau gwell yn amlwg ar fesurau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2+ yn ystod 2017/18. Roedd canlyniadau Lefel 1 yn uwch na chyfartaledd CCD, ond roedd canlyniadau Lefel 2 a 2+ yn is. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i hymateb i ben trwy ddweud y byddai gwybodaeth derfynol ynglŷn â chanlyniadau arholiadau ar gyfer pob un o'r 17 ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc ar ôl derbyn y data dilysu terfynol ym mis Rhagfyr 2018.

Nid oedd gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Griffiths gwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes.

2. Cwestiwn gan y Cyngorydd S. Belzak i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd A. Morgan

"Ym mha ffordd y bydd creu traffig ychwanegol ar y ffyrdd, sef canlyniad tebygol y "Cynigion i wella addysg yn ardal Pontypridd" a gafodd eu cymeradwyo gan y Cabinet ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 3 Hydref, yn cyd-fynd â Chynhadledd y Partïon (COP) 21 Cytundeb Hinsawdd Paris 2015 neu adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) a gafodd ei gyhoeddi ar 8 Hydref 2018?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r cynnig sy wedi'i gyflwyno yn lleihau'r ôl troed carbon a'i fod yn dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Newid Hinsawdd. Byddai'r cynnig mewn perthynas â safon adeilad yr ysgol yn mynd rhagddo a'r cyfleusterau sydd ar gael, mewn gwirionedd, yn gwella lles y plant. Ychwanegodd yr Arweinydd, o ran cludiant, doedd dim unrhyw dystiolaeth y byddai'r cynnig yn ychwanegu at faint o draffig sydd i'w weld eisoes. Parhaodd trwy ychwanegu, oherwydd lleoliad yr ysgolion arfaethedig ac agosrwydd cludiant cyhoeddus, y gobaith yw y byddai'r disgyblion yn defnyddio trafndiaeth

gyhoeddus gan leihau'r traffig, o bosibl.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak

"O ystyried y corff sylweddol iawn o dystiolaeth yn y llenyddiaeth wyddonol sy wedi'i hadolygu gan gymheiriaid (sy'n deillio o astudiaethau trawswladol) o ran y canlyniadau iechyd negyddol i bobl sy'n treulio cyfran sylweddol o'u dydd (waeth beth yw'r oriau brig) ger priffyrdd, traffyrdd a ffyrdd deuol, a fydd yr Arweinydd bellach yn ymrwymo i'm hawgrym yn y Cabinet ar 3 Hydref o gael ymchwiliad annibynnol gan arbenigwr iechyd y cyhoedd i'r goblygiadau iechyd hirdymor i fyfyrwyr a staff o ganlyniad i symud Ysgol Gynradd Cilfynydd o'i leoliad presennol i safle yn union gerllaw'r A470 lle mae llawer o draffig?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Eglurodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon bwrw ymlaen â'r cynnig gyda swyddogion, ond ychwanegodd fod y cynnig a gafodd ei dderbyn yn y Cabinet yn golygu y byddai'r ysgol newydd tua'r un mor agos i'r A470 ag adeilad yr ysgol bresennol, ac mae'n bosibl bod yr adeilad presennol ychydig yn agosach. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y parthau ansawdd aer ar yr A470 ar adegau brig pryd mae llawer o draffig nad oedd yn cyd-fynd ag oriau ysgol. Ychwanegodd yr Arweinydd eto bod modd iddo drafod y mater gyda swyddogion er ei fod wedi cyfeirio at ei ateb yng nghyfarfod y Cabinet y byddai astudiaeth effaith amgylcheddol yn cael ei chynnal ar gyfer adeiladau ysgol newydd a fyddai cynllun adeilad ddim yn cael ei roi ar waith pe bai'n cael ei farnu fod ganddo unrhyw oblygiadau iechyd yn gysylltiedig ag ef.

3. Cwestiwn gan y Cynghorydd L. Walker i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai - Y Cynghorydd R. Bevan

"Oes modd cael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran YMCA Pontypridd a'r datblygiad arfaethedig gwerth £6 miliwn ym Mhontypridd"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Cyn darparu manylion am y datblygiad cywirodd y Cynghorydd Bevan y Cynghorydd Walker trwy nodi mai cyllideb bresennol y Prosiect ar gyfer y datblygiad oedd £4.1m. Parhaodd trwy ychwanegu y byddai YMCA Pontypridd yn gyfleuster trawiadol newydd gyferbyn â gwaith ailddatblygu Canolfan Dyffryn Taf a fyddai'n cyfrannu ymhellach at adfywio canol tref Pontypridd gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf i'r gymuned eu defnyddio gan gynnwys meithrinfa newydd; gofod ar gyfer busnesau cymunedol a defnydd gan y gymuned gan gynnwys gofod perfformio a datblygu sgiliau cymunedol. Dywedodd fod yr ailddatblygu yn cael ei arwain

gan YMCA Pontypridd - gyda chefnogaeth a chyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Cyngor a nifer o ymddiriedolaethau elusennol.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod i'r Aelodau fod y gwaith cychwynnol ar y safle wedi'i gwblhau, gan gynnwys dymchwel yr adeilad cysylltiol gyferbyn ag Adeiladau'r Cyngor a chlirio y tu fewn i rannau o'r adeilad cyn adeiladu. Cafodd caniatâd cynllunio ei roi ac mae ymarfer caffael yn mynd rhagddo i benodi contractwr i ymgymryd â chamau gwaith adeiladu'r prosiect. Cafodd Bwrdd Prosiect ei sefydlu i fonitro cynnydd prosiect YMCA Pontypridd, dan arweiniad YMCA Pontypridd - mae swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru ond ar y Bwrdd er mwyn cynghori yn unig. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i ymateb i ben trwy roi gwybod i'r Aelodau fod gwirfoddolwyr hefyd wedi dod at ei gilydd i baentio'r ffens o gwmpas y safle, gan ei gwneud yn fwy deniadol yn weledol, a hefyd fel arwydd bod cynnydd yn cael ei wneud.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker:

Rydw i'n falch o glywed bod y datblygiad yn costio llai na £6 miliwn - rydw i'n falch o hynny. Rydw i wedi derbyn cwestiynau gan etholwr ynghylch a fydd unrhyw gyfleusterau campfa ar gael yn y datblygiad yn yr YMCA?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan:

Ar hyn o bryd rydyn ni ar fin tendro felly mae'n anodd imi wneud sylwadau ond hoffwn i eich sicrhau y bydd cyfleusterau campfa ar gael y rhan o ddatblygiad Dyffryn Taf y bydd modd i'ch etholwyr eu defnyddio.

4. Cwestiwn gan y Cyngorydd Lorraine Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth – Y Cyngorydd A. Crimmings:

"A wnewch chi ddatganiad am ddyfodol Safle Mwynder Nant-y-Gwyddon?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth sylw ar y gwaith monitro parhaus sy'n cael ei wneud ar y safle oherwydd nifer uchel ac amllder yr achosion o bobl yn torri i mewn i'r safle, sy wedi arwain at leihau'r mathau o ddeunyddiau y bydd y safle'n eu derbyn. Parhaodd yr Aelod Cabinet trwy nodi bod 6 safle arall y Cyngor yn derbyn ystod sylweddol uwch o ddeunyddiau, ac mae'r aelodau o staff yn aml yn

ailgyfeirio cwsmeriaid naill ai i Ddinas neu Dreherbert. Ychwanegwyd, yn anffodus, doedd hi ddim yn bosibl datblygu safle y Gelli ymhellach oherwydd topograffeg y tir o'i amgylch a soniodd yr Aelod o'r Cabinet am awgrym diweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru y byddan nhw'n gofyn i'r Awdurdod ymgymryd â gwaith i wella'r safle i gydymffurfio â gofynion trwyddedau a fyddai bron yn sicr yn golygu cost i'r Awdurdod. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i hateb i ben trwy ychwanegu bod y Cyngor yn parhau i drafod, ond mae'n bosibl y bydd hyn, ynghyd â'r toriad parhaus, yn gwneud y safle yma yn anymarferol yn y dyfodol ac felly mae cau'r safle yn cael ei ystyried fel opsiwn, er bod hyn yn ddewis olaf.

Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd L. Jones

"Roedd llond llaw o drigolion mewn cyfarfod PACT diweddar wedi holi beth sy'n digwydd ar y safle ac rydych chi wedi dyfynnu'r hyn a ddywedodd Mr Nigel Wheeler bron gair am air. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio'n helaeth, gyda phobl yn gorfod ciwio i ddefnyddio'r safle ac mae rhai trigolion yn gorfod mynd i'r Gelli yn lle oherwydd bod y safle'n cael ei ddefnyddio gymaint. Felly ydy cau'r safle yn opsiwn posibl? "

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet y byddai cau yn opsiwn posibl y byddai'r Cyngor yn ei ystyried.

5. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar y buddsoddiad mewn Addysg?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Rosser

Dyweddodd yr Aelod o'r Cabinet fod hwn yn gwestiwn mawr i'w ddewis oherwydd bod y Cyngor yn buddsoddi mewn ysgolion ar raddfa fawr. Mae cyfanswm o £160 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn ysgolion Band A a £160 miliwn o gyllid ar gyfer ysgolion Band B ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Ychwanegodd y mai cyfanswm y buddsoddiad fyddai'r buddsoddiad mwyaf yng Nghymru gyfan.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet trwy roi gwybod am y cyfleusterau newydd sydd ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y buddsoddiad gwerth £85 miliwn yng Nghwm Rhondda a Thonyrefail, £24.5 miliwn yn Ysgol Gyfun Y Pant, a bron i £50 miliwn yn Ysgol Gymuned Aberdâr. O ran buddsoddiad Band B cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod ymgynghoriad yn cymryd lle ar hyn o bryd ynglŷn â chynigion addysg ym Mhontypridd. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet bod dyraniadau'r Rhaglen Gyfalaf wedi cyrraedd cyfanswm o £27.079 miliwn dros y 4

blynedd ariannol ddiwethaf. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod y Cyngor wedi buddsoddi £2 miliwn yn y gyllideb addysg yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol - gan ddyblu ei ymrwymiad blaenorol. Daeth yr Aelod Cabinet â'i hymateb i ben trwy gyfeirio at ddyfyniad a oedd wedi'i wneud mewn cynhadledd ddiweddar "os ydyn ni'n addysgu myfyrwyr heddiw fel y gwnaethon ni addysgu myfyrwyr ddoe, rydyn ni'n dwyn eu hyfory oddi wrthyn nhw" gan ychwanegu bod y buddsoddiad yn ddim mwy nag y mae plant heddiw yn ei haeddu er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau iddyn nhw mewn bywyd.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W.

Lewis:

"Rydw wedi derbyn sylwadau cadarnhaol gan rieni mewn perthynas ag Ysgol Nantgwyn yn dilyn y buddsoddiad. A wnewch chi drafod y buddsoddiadau'n ymwneud ag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol? "

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser

Eglurodd y Cyngorydd Rosser fod y gwariant cyffredinol dros y deng mlynedd diwethaf mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg o £12m gyda buddsoddiad pellach mewn ysgolion sy wedi'u cynllunio ar gyfer Band B i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu nifer ei siaradwyr erbyn 2050. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y cyllid diweddar a gafodd ei gytuno gan y Cabinet mewn perthynas â £23.9 miliwn am ragor o Ysgolion y 21^{ain} Ganrif yng Nghwm Cynon, gydag ymgynghoriad yn cael ei ddatblygu. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r cynigion yma yn gweld buddsoddiad o £10.2 miliwn ar gyfer Ysgol Gyfun Rhydywaun a £3.3 miliwn ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr i ganiatáu estyniadau newydd i'r ddwy ysgol erbyn 2022.

RHAGLEN WAITH

66 RHAGLEN WAITH

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol y newyddion diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â Rhaglen Waith y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai Dadl Flynyddol yr Arweinwyr yn cael ei chyflwyno ym mis Tachwedd a hefyd cyflwyniad gan y Llu Awyr Prydeinig yn dilyn dathliadau Rhyddfrint y Fwrdeistref yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd eitemau eraill a gafodd eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen waith yn cynnwys adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol a hyfforddiant diogelu gyda'r rhaglen waith yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny i adlewyrchu'r newidiadau.

**ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU
CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR
MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R
GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL.**

**67 ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL GAN GOMISIWN FFINIAU A
DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yr Aelodau at yr adroddiad a oedd yn rhoi adborth o'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gafodd ei gychwyn gan y Cyngor mewn perthynas ag adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor sy wedi'i gynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y 'Comisiwn Ffiniau'). Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i Aelodau ystyried a ddylid cyflwyno cynnig y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau ai peidio fel rhan o gam cyntaf yr ymgynghori yn ymwneud â'r adolygiad.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r adolygiad o'r blaen yn ei gyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Medi, a bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd wedi'i ystyried ac wedi rhoi gwybod am adborth pellach a gafodd ei gasglu gan yr ymgynghoriad cyhoeddus a oedd eisoes wedi'i gytuno gan y Cyngor. Cafodd yr Aelodau hefyd wybod am amserlen achlysuron gyda dyddiad cyflwyno wedi'i gytuno ar gyfer ymateb y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau, sef 26 Hydref, 2018.

Wrth symud ymlaen, y cynnig oedd bod y Cyngor yn cyflwyno cynnig y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau yn rhan o'i ymgynghoriad cychwynnol ynghylch yr adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor ac os nad oedd modd cyrraedd cytundeb unfrydol mewn perthynas â'r cynigion a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad, byddai meysydd heb gytundeb, neu gytundeb mwyafrif yn cael eu hamlygu i'r Comisiwn Ffiniau i lywio eu trafodaethau yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr, pe bai Aelodau'n dymuno ychwanegu opsiwn pellach at unrhyw un o'r cynigion sy wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn ystod y cyfarfod, byddai hyn hefyd yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau.

Yn dilyn trafodaethau hir mewn perthynas â'r eitem **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r adborth a oedd wedi'i dderbyn yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gafodd ei gychwyn gan y Cyngor mewn perthynas â'r cynigion sy wedi'u hamlinellu yn Atodiad A o'r adroddiad sy'n ymwneud ag adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor gan y Comisiwn Ffiniau
2. Cyflwyno'r cynigion canlynol i'r Comisiwn Ffiniau i lywio eu

trafodaethau yn y dyfodol:

	Ward Etholiadol	Cynnig	Cytundeb y Cyngor
a)	Abercynon	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
b)	Dwyrain Aberdâr	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
c)	Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed	Cadw'n Ward tri Aelod	Unfrydol
d)	Pentre'r Eglwys	Cynyddu i Ward dau Aelod (adlinio'r ffin â Ward Ton-teg)	Unfrydol
e)	Cilfynydd	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
f)	Cwm-bach	Cynyddu i Ward dau Aelod	Unfrydol
g)	Cwm Clydach	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
h)	Y Gilfach-goch	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
i)	Glyn-coch	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
j)	Llanilltud Faerdref	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
k)	Pen-y-graig	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
l)	Pen-y-waun	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
m)	Penrhiw-ceibr	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
n)	Tref Pontypridd	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
o)	Y Porth	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
p)	Ffynnon Taf	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
q)	Ton-teg	Lleihau i Ward un Aelod (o ddau) (adlinio'r ffin â Ward Pentre'r Eglwys)	Unfrydol
r)	Tonypandy	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
s)	Dwyrain Tonyrefail	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
t)	Trefforest	Cadw'n Ward un Aelod	Unfrydol
u)	Treherbert	Cadw'n Ward dau Aelod	Unfrydol
v)	Ynys-y-bŵl	Cynyddu i Ward dau Aelod	Unfrydol

w)	Gogledd Aberaman a De Aberaman	<p>Dewis 1: Cyfuno'r ddwy Ward i greu un Ward tri Aelod. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli 1 Aelod</p> <p>Dewis 2: Rhannu Wardiau De Aberaman a Gogledd Aberaman yn 3 Ward un Aelod yn unol â dyhead y Comisiwn Ffiniau i flaenoriaethu creu Wardiau un Aelod Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli 1 Aelod</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
x)	Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar	<p>Dewis 1: Cyfuno'r ddwy Ward i greu Ward dau Aelod sy'n cwmpasu'r ardal gyfan sy'n cael ei chynrychioli ar hyn o bryd gan y ddwy Ward bresennol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli 1 Aelod</p> <p>Dewis 2: Cadw'r trefniant presennol sef Ward dau Aelod Gorllewin Aberpennar (-32% yn codi i -33%) a Ward un Aelod Dwyrain Aberpennar (-6% yn gostwng i 0%) Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
y)	Llwynypïa a Threalaw	<p>Dewis 1: Cyfuno Wardiau Threalaw a Llwynypïa i greu un Ward dau Aelod Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p> <p>Dewis 2: Addasu ffiniau</p>	Dewis 2: Penderfyniad y mwyafrif

		Wardiau Llwynypïa a Threalaw, a hefyd Llwynypïa ac Ystrad. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim	
z)	Pentre	Dewis 1: Cadw'r Ward dau Aelod bresennol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid Dewis 2: Rhannu Ward Pentre bresennol yn ddwy Ward un Aelod sy'n cynrychioli cymunedau Ton Pentre a Phentre. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid	Dewis 2: Penderfynia d y mwyafrif
aa)	Ystrad	Dewis 1: Cadw trefniant Ward dau Aelod presennol Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid Dewis 2: Rhannu Ward Ystrad bresennol yn ddwy Ward un Aelod sy'n cynrychioli cymunedau Ystrad a'r Gelli. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid	Dewis 1: Penderfynia d y mwyafrif
bb)	Glynrhedynog a'r Maerdy	Dewis 1: Cyfuno wardiau Etholiadol Glynrhedynog a Maerdy i greu un Ward dau Aelod. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli 1 Aelod Dewis 2: Parhau â'r trefniadau presennol yn y	Dewis 1: Penderfynia d y mwyafrif

		Maerdy ac Ynys-hir a chyfuno Glynrhedynog a Tylorstown (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Macey)	
cc)	Tylorstown ac Ynys-hir	<p>Dewis 1: Cyfuno'r wardiau etholiadol i greu Ward dau Aelod sy'n cwmpasu tiriogaeth etholiadol y ddwy Ward bresennol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli un Aelod</p> <p>Dewis 2: Parhau â'r trefniadau presennol yn y Maerdy ac Ynys-hir a chyfuno Ferndale a Thylorstown (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Macey)</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
dd)	Treorci	<p>Dewis 1: Lleihau i Ward dau Aelod (o dri)</p> <p>Dewis 2: Cadw fel Ward 3 Aelod (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Chapman)</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
ee)	Y Beddau a Thŷ-nant	<p>Dewis 1: Cyfuno wardiau y Beddau a Thŷ-nant i greu Ward dau Aelod Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p> <p>Dewis 2: Cyfuno wardiau y Beddau a Thŷ-nant i greu Ward tri Aelod Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ychwanegu 1 Aelod</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
ff)	Brynna a Llanharan	Dewis 1: Cyfuno'r wardiau i greu un Ward tri Aelod. Effaith ar Gynrychiolaeth	Dewis 2: Penderfyniad y mwyafrif

		<p>Aelodau: Ychwanegu 1 Aelod</p> <p>Dewis 2: Creu tair Ward un Aelod unigol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ychwanegu 1 Aelod</p>	
gg)	Y Cymer	<p>Dewis 1: Cadw'r Ward dau Aelod bresennol gyda'r ffiniau presennol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p> <p>Dewis 2: Cadw'r ward bresennol, throsglwyddo elfen ward Cwm Rhondda o Drehafod i'r Cymer, sy'n gynnwys tua 251 o etholwyr ychwanegol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p>	Dewis 2: Penderfyniad y mwyafrif
hh)	Y Graig a Chwm Rhondda	<p>Dewis 1: Cyfuno Wardiau Etholiadol y Graig a Chwm Rhondda i greu un Ward dau Aelod Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli 1 Aelod.</p> <p>Dewis 2: Parhau â'r trefniant presennol o gael un Ward un Aelod (y Graig) ac un Ward dau Aelod (Cwm Rhondda). Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p>	Dewis 3: Penderfyniad y mwyafrif

		<p>Dewis 3: Ymestyn ffiniau'r Graig i gynnwys rhan o Maes-y-Coed, sy wedi'i lleoli ar hyn o bryd yn ward Cwm Rhondda. Yn ogystal â'r cynllun arfaethedig i drosglwyddo Trehafod, byddai'r ateb yma yn golygu cynnwys 450 o etholwyr yn ward y Graig ar ol ei hymestyn. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Colli un Aelod</p>	
ii)	Tref Llantrisant a Thonysguboriau	<p>Dewis 1: Cyfuno wardiau etholiadol Tref Llantrisant a Thonysguboriau. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim</p> <p>Dewis 2: Gyda datblygiad ystad newydd ger Lanelay Hall, byddai modd cynnwys hyn ac Ynysymaerdy yn rhan o ward Tonysguboriau (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd James)</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
jj)	Trallwng	<p>Dewis 1: Cadw'n Ward un Aelod</p> <p>Dewis 2: Ward Aml-Aelod yn cwmpasu Trallwng a Chilfynydd, ac yn cynnwys rhan fechan o Lyn-taf (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Powell)</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
kk)	Gorllewin Tonyrefail	<p>Dewis 1: Cynyddu nifer yr Aelodau i ddau. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ychwanegu 1</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif

		<p>Aelod.</p> <p>Dewis 2: Dydy cymunedau Penrhiw-fer nac Edmondstown yn teimlo eu bod yn perthyn i Orllewin Tonyrefail. Cyfuno Penrhiw-fer â Pen-y-Graig ac Edmondstown â'r Cymer (wedi'i gynnig gan y Cynghorydd A. Davies-Jones)</p>	
ll)	Llanhari a Phont-y-clun	<p>Dewis 1: Trosglwyddo cymuned Tyla-garw a dyrannu cynrychiolydd ychwanegol i Bont-y-clun i greu Ward tri Aelod. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ychwanegu 1 Aelod</p> <p>Dewis 2: Mabwysiadu'r un trefniant â Dewis 1, er bod yr ardal yn cael ei rhannu'n dair Ward un Aelod ar wahân Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ychwanegu 1 Aelod</p>	Dewis 2: Penderfyniad y mwyafrif
mm)	Y Ddraenen Wen a Chanol Rhydfelen/Ilan	<p>Dewis 1: Creu Ward un Aelod ychwanegol. Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Ward un Aelod ychwanegol (ardal Rhydfelen Uchaf/Glyn-taf)</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif
nn)	Hirwaun	<p>Dewis 1: Cadw'r trefniant presennol (Ward un Aelod).</p>	Dewis 1: Penderfyniad y mwyafrif

		Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid	
oo)	Y Rhigos	Dewis 1: Cadw'r Ward un Aelod bresennol Effaith ar Gynrychiolaeth Aelodau: Dim newid	Dewis 1: Penderfynia d y mwyafrif

3. Nodi'r Amserlen sy wedi'i hamlinellu ym mharagraff 5 yr adroddiad mewn perthynas â'r broses ar gyfer cynnal gweddill yr adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau.

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

68 CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR - Y SETLIAD DROS DRO

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn perthynas â Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2019-2020, a sylwadau cychwynnol ar ei oblygiadau tebygol ar gyfer cynnal gwasanaethau'r Cyngor, yn dilyn cyhoeddi'r manylion ar 9 Hydref, 2018.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran y prif ddata i'r Aelodau o'r setliad gan ddweud bod y setliad dros dro arfaethedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn dangos cynnydd o +0.3% sy'n uwch na'r cyfartaledd o -0.3%. Mae ffigyrau setliad ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio o +0.4% ar ei orau i -1.0% ar ei waethaf. Cafodd yr Aelodau wybod bod y setliad dros dro yn cynnwys cyllid rhannol ar gyfer cytundeb dyfarnu tâl Athrawon a'r cynnydd mewn Prydau Ysgol Am Ddim, ond doedd manylion y grantiau penodol ddim wedi'u cyhoeddi eto. Cafodd yr Aelodau wybod, er bod y Setliad Dros Dro yn well na'r hyn a gafodd ei fodelu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf, roedd yn dal i gyflwyno her sylweddol i'r Cyngor o ran paratoi cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20, gan roi gwybod i'r Aelodau mai £5.920 miliwn fydd y bwlch posibl yn y gyllideb wrth symyud ymlaen ymlaen. Cymerodd Cyfarwyddwr y Gyfadran y cyfle i roi gwybod i'r Aelodau am y gwaith y mae angen ei wneud i ddatblygu strategaeth cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2018/2019, wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a'r Gwasanaethau Cyhoeddus ar 9 Hydref 2018.
2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol terfynol gael ei

gyhoeddi yn ystod mis Rhagfyr 2018.

3. Nodi y bydd yr ymgynghoriad strategaeth cyllideb gyffredinol yn cychwyn ar y 5 Tachwedd 2018.

(D.S. Cyn y drafodaeth ar yr eitem yma, datganodd y Cynghorydd P. Jarman y buddiant canlynol: 'Mae gyda fi ganiatâd y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â phroses pennu cyllideb 2018/19. Gan fod yr adroddiad yma yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer 2019/20, bydda i'n ymatal rhag rhoi sylwadau ar unrhyw faterion ariannol ar gyfer y gyllideb yma i ddiogelu fy hun.)

69 GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Drwy ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen gyfle i Aelodau adolygu lefel gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer mathau gwahanol o eiddo yn y Fwrdeistref Sirol ac i adolygu, diwygio neu barhau â'r lefel bresennol.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at adran 3 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu gofynion y Cyngor mewn perthynas â darparu gostyngiad Treth y Cyngor, gyda Chyfarwyddwr y Gyfadran yn dweud bod gan y Cyngor ddisgresiwn i ddyfarnu gostyngiad o hyd at 50% mewn perthynas â dau fath o anheddau (sy wedi'u disgrifio fel ail gartrefi a chartrefi gwyliau fel rheol), h.y. Dosbarth A a Dosbarth B.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i barhau i beidio â rhoi gostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B a C.
2. Bod y pwyllgor craffu perthnasol yn bwrw ymlaen ag adolygiad o'r strategaeth eiddo gwag yn dilyn cyfnod o weithredu'r strategaeth am 12 mis, gyda'i ganfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

70 BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen adroddiad y Cabinet a oedd yn nodi'r sefyllfa o ran adnoddau un tro a oedd ar gael yn dilyn adolygiad o cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gan y Cyngor ar ôl cwblhau proses archwilio Datganiad o Gyfrifon 2017/18 y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach yn ei meysydd Blaenoriaeth Buddsoddi, sy'n cydfynd â Chynllun Corfforaethol 2016-2020.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn

wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu'n gyson fel rhan o drefniadau rheoli ariannol cadarn y Cyngor a chyfeiriodd yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad a oedd yn amlinellu i ba raddau y mae modd rhyddhau unrhyw symiau. Roedd Adran 5.4 yr adroddiad hefyd yn rhoi naratif am feysydd posibl ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol - byddai modd cyllido buddsoddiad o £23.550 miliwn trwy gyfuniad o ryddhau cronfeydd wrth gefn un tro wedi'u clustnodi yn ogystal â benthycu darbodus wedi'i gyllido gan leihad yng nghostau yswiriant.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Rhyddhau'r arian (un tro) o'r cronfeydd wrth gefn a gafodd ei wireddu o ganlyniad i'r adolygiad o gronfeydd wrth gefn wedi'i glustnodi, fel sy wedi'i nodi ym mharagraff 4.1 i 4.3 o'r adroddiad yn manylu arno;
2. Ymgymryd â benthycu darbodus fel sy wedi nodi ym mharagraff 4.4 i 4.7 yr adroddiad; a
3. Defnyddio'r cyllid sy'n cael ei ryddhau i ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi fel y mae paragraff 5 yr adroddiad yn manylu arny'n nhw, a fydd wedyn yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Gyfalaf tair blynedd y Cyngor a / neu'r Gyllideb Refeniw fel sy'n briodol.

(D.S. Cyn y drafodaeth ar yr eitem yma, datganodd y Cynghorydd P. Jarman y buddiant canlynol: 'Mae gyda fi ganiatâd y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â phroses pennu cyllideb 2018/19)

TRAFOD ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL

71 PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Yn dilyn argymhelliad gan Banel Ymddeol y Gynnar o Wirfodd (VER) y Cyngor, dywedodd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wrth yr Aelodau am becyn diswyddo'r Prif Swyddogion (fel y mae'r adroddiad yn manylu arno) yn unol â datganiad Polisi Tâl cymeradwy 2018/19 y Cyngor.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo pecyn diswyddo'r Prif Swyddogion (fel y mae Atodiad 1 yr adroddiad yn manylu arno), a fel y cafodd ei gymeradwyo gan Banel ymddeol y Gynnar o Wirfodd y Cyngor ar 17 Hydref 2018, yn unol â datganiad Polisi Talu cymeradwy 2018/19 y Cyngor.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO Y GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

72 Y DIWEDDARAF AM Y RHYBUDD O GYNNIG - WARDEINIAID EIRA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol adroddiad ac argymhellion y Gweithgor Craffu i'r Aelodau. Roedd hyn yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gafodd ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi mewn perthynas â Wardeiniaid Eira.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gweithgor wedi'i benodi er mwyn ystyried y cynnig i benodi Wardeiniaid Eira gwirfoddol yn y Fwrdeistref Sirol a'r angen i gyflymu trafodaeth y grŵp o ganlyniad i'r mater dan sylw. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Aelodau am y trafodaethau a ddygwyd ymlaen yng nghyfarfod y Cabinet ar y 18 Hydref lle cytunodd yr Aelodau i'r argymhellion a gafodd eu cyflwyno gan y gweithgor yn amodol ar rai mân newidiadau gwnaeth y Cyfarwyddwr eu hawgrymu.

Siaradodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick, fel Cadeirydd y gweithgor, yn gadarnhaol am y gwaith sy wedi'i wneud gan yr Aelodau a'r argymhellion i'w datblygu.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi gwaith y Gweithgor Craffu fel sy wedi'i nodi yn Atodiad A yr adroddiad.
2. Nodi'r penderfyniad wnaeth y Cabinet ar 18 Hydref, yn dilyn ystyriaeth y Cabinet o argymhellion y Gweithgor, fel sydd i'w gweld isod:
 - a) Cymeradwyo argymhellion y Gweithgor Craffu fel sydd wedi'u hamlinellu isod, yn amodol ar rai newidiadau bychain:-
 - i. Bod y rhif ffôn arbennig ar gyfer Aelodau Etholedig yn cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi cymorth a chyngor i'r holl Aelodau Etholedig yn ystod cyfnodau o dywydd garw;
 - ii. Caiff ymgyrch benodol ei rhoi ar waith i hybu cymunedau i ddod ynghyd i helpu ei gilydd yn wirfoddol yn ystod tywydd eithafol, yn ogystal ag annog trigolion i ddod yn 'gymdogion da';
 - iii. Caiff canllawiau priodol ac ymarferol, ac ymarfer da mewn perthynas â gweithredu yn y gymuned mewn tywydd garw eu rhannu â thrigolion Rhondda Cynon Taf drwy wefan y Cyngor (GOV UK - Canllawiau ar Weithredu yn y Gymuned mewn Tywydd Garw); a
 - iv. Caiff gwaith pellach ei gyflawni mewn perthynas ag yswiriant

atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer gwaith gwirfoddol sy'n cael ei gynnal mewn modd diogel.

- b) Bod cerbydau aradr eira bach yn cael eu cludo i'r safle fel bod modd i'r holl Aelodau eu gweld nhw cyn y cyfarfod ym mis Hydref.

Cafodd yr aelodau wybod am y trafodaethau yng nghyfarfod y gweithgor, a ddaeth ynghyd ar 9 Hydref, a'r argymhellion dilynol.

73 Y PWYLLGOR ARCHWILIO - PENODI IS-GADEIRYDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Llywodraethol fanylion i'r Aelodau am y penderfyniad diweddar a gafodd ei wneud gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 17 Medi, 2018 a rhoddodd hefyd gefndir cyfarfodydd pwyllgor archwilio blaenorol mewn perthynas â phenodi Is-gadeirydd i'r pwyllgor ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2018/19.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** dylai'r mater o benodi is-gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2018/19 cael ei gyflwyno'n ôl i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2018.

74 NEWID AELODAETH

Yn unol â Chofnod rhif 10 o gyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 23 Mai 2018, dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth yr Aelodau ei fod wedi cael hysbysiad gan y Grŵp Llafur ynglŷn â newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Archwilio

PENDERFYNWYD:

1. Nodi y byddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering ar y Pwyllgor Archwilio.

75 PENDERFYNIADAU BRYD O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2 (a), adroddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Llywodraethol ar benderfyniad brys a gafodd ei ddwyn ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol ar 29 Awst, 2018 mewn perthynas â 'Chostau Newydd ar gyfer Trac Athletau Aberdâr' a **PHENDERFYNWYD** - nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

- a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, E. Stephens, L. Jones, G. Davies, S. Rees-Owen, M. Weaver, K. Morgan, J. Williams, A. Cox, D. Macey, J. Davies, J. Cullwick, H. Fychan, E. Webster, A. Chapman, S.M. Evans a D. Grehan.

"Dylen ni i gyd gefnogi ein heconomi lleol a BBaCh. Mae'r busnesau yma'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r economi yma. Yn rhan o ymdrech i gefnogi'n cwmnïoedd cynhyrchu bwyd yn well, bydd y Cyngor yma yn llunio cofrestr cynnyrch bwyd. Bydd y gofrestr yn rhestru'r holl gynhyrchwyr bwyd a diod lleol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyda'r bwriad o annog a hyrwyddo cynnydd o ran marchnata a bwyta cynnyrch lleol, gan gefnogi'r economi leol."

"Os bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r cynnig yma, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu'r gofrestr.

Yn dilyn y drafodaeth, **PENDERFYNWYD** y byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad i'w ystyried ymhellach.

- b) Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau'r Cyngorwyr W. Treeby, J. Harries, L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S. M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R. W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, R. K. Turner, M. Webber, D. H. Williams, T. Williams, C. J. Willis ac R. Yeo.

"Gyda Diwrnod Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar 10 Hydref, mae'r Cyngor yma yn cefnogi ymgyrch 'Working with Compassion' y Samariaid. Amcan yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo trugaredd yn y gweithle.

"Mae'r Cyngor yn nodi'r cysylltiad rhwng cyfraddau hunanladdiadau ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac wedi penderfynu codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n dioddef trallod emosiynol.

"Mae'r Cyngor yma hefyd yn ailbwysleisio ei fod yn cefnogi

Ymgyrch Siarad â Fi 2 Llywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod y darpariaethau angenrheidiol yn eu lle i atal hunanladdiadau, lle bod hynny'n bosibl."

"Yn rhan o hyn, bydd y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu perthnasol (Iechyd a Lles) drafod y dull mwyaf effeithiol o gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth fewnol a fydd yn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i weithwyr, a'r dull mwyaf addas o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith trigolion y Fwrdeistref Sirol."

Yn dilyn y drafodaeth, **PENDERFYNWYD** y byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles i'w ystyried ymhellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**